# Casgliad data misol ar Gapasiti a Chynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol 2026-27

## Cefndir

Datblygwyd data Capasiti a Chynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn 2020 mewn ymateb i'r angen i fonitro capasiti awdurdodau lleol yn ystod pandemig COVID-19. Yna, cafodd ei ddiwygio a'i adolygu yn 2022, i greu'r casgliad hwn, a gyhoeddir bellach ar StatsCymru.

Bwriedir iddo roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am lefel y galw am wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru a lefel y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Mae'r set ddata hon wedi'i chyfyngu i'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ac, felly, **nid yw'n cynnwys pobl sydd wedi sicrhau neu ariannu eu gofal eu hunain** heb ymyrraeth na chymorth awdurdod lleol.

## Nodiadau Canllaw ar gyfer cwblhau a chyflwyno

Mae data Capasiti a Chynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol yn gasgliad data cyfranredol a gyflwynir yn electronig gan awdurdodau lleol bob mis i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gwerth mis calendr o ddata .

### Dyddiadau casglu a chyflwyno data

| Data a gasglwyd ar | Ffurflen ar gael i'w lawrlwytho o Objective Connect | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2026 | 1 Ebrill 2026 | 17 Ebrill 2026 |
| 30 Ebrill 2026 | 5 Mai 2026 | 15 Mai 2026 |
| 31 Mai 2026 | 1 Mehefin 2026 | 12 Mehefin 2026 |
| 30 Mehefin 2026 | 6 Gorffennaf 2026 | 17 Gorffennaf 2026 |
| 31 Gorffennaf 2026 | 3 Awst 2026 | 14 Awst 2026 |
| 31 Awst 2026 | 1 Medi 2026 | 11 Medi 2026 |
| 30 Medi 2026 | 5 Hydref 2026 | 16 Hydref 2026 |
| 31 Hydref 2026 | 2 Tachwedd 2026 | 13 Tachwedd 2026 |
| 30 Tachwedd 2026 | 1 Rhagfyr 2026 | 11 Rhagfyr 2026 |

## Gofynion o ran data

Mae rhai eitemau o ddata sydd wedi'u cynnwys yn y casgliad misol hwn yn gorgyffwrdd â data a gesglir yn ein casgliadau blynyddol (**Fframwaith Perfformiad a Gwella**, **Casglu data: gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol**), ac rydym wedi cysoni'r canllawiau hyn â'r

casgliadau blynyddol hynny lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, am fod y data hyn yn cael eu casglu'n fisol, bydd rhai gwahaniaethau rhwng y ffigurau blynyddol. Yn benodol, oherwydd yr amserlenni byr sy'n gysylltiedig â chasglu a chyhoeddi'r set ddata hon, gellir gwneud diwygiadau i'r set ddata hon pan fydd gwallau wedi'u nodi ar ôl iddi gael ei chyhoeddi.

## Terminoleg

O heddiw ymlaen – diwrnod gwaith olaf y mis blaenorol.

Y mis diwethaf – y mis calendr cyfan blaenorol.

# Manylion Craidd

Mae'r cwestiynau isod i'w cwblhau ar gyfer pob mis yn y flwyddyn galendr 2026-27.

## Gwasanaethau Oedolion

### 1. Beth yw cyfanswm nifer y cysylltiadau a gawsoch mewn gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?

Cyfrifwch **gyfanswm nifer y cysylltiadau** a gafwyd gan oedolyn a oedd yn ceisio cymorth neu unigolyn a gysylltodd â'r gwasanaeth ar ei ran. **Gall y cyswllt hwn fod yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol drwy atgyfeiriad o wasanaeth arall.** Dylai hyn gynnwys y rhai a **oedd** yn cael gofal a chymorth, neu gymorth (fel gofalwr) a'r rhai nad oeddent yn eu cael, ar adeg y cyswllt.

Gall oedolyn gael mwy nag un cyswllt yn ystod y mis casglu. **Cyfrifwch bob un o'r rhain.**

Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrifiad gynnwys **pob cyswllt** sy'n bodloni'r meini prawf uchod, waeth beth fo'r llwybr i'r system.

Gweler **metrig AD/001a y Fframwaith Perfformiad a Gwella** am ragor o fanylion.

#### 1.1. O blith yr uchod, (1), faint o gyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud â chyswllt newydd?

Cyfrifwch bob cyswllt â'r gwasanaeth yn ystod y mis diwethaf ar gyfer unrhyw oedolyn **nad oedd yn cael gofal na chymorth** ar adeg y cyswllt. **Dim ond** cysylltiadau **newydd** â'r gwasanaeth y dylech eu cynnwys, nid y rhai sydd eisoes yn cael gofal a chymorth.

Gweler **metrig AD/001b y Fframwaith Perfformiad a Gwella** am ragor o fanylion.

#### 1.2. O blith yr uchod (1.1), faint o'r cysylltiadau newydd a gafodd gyngor neu gynhorthwy?

Dim ond cysylltiadau **newydd** sy'n ateb y diffiniad ar gyfer rhoi **cyngor a/neu gynhorthwy** y dylech eu cyfrif.

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Lle y bo'n hysbys, rhaid cofnodi gwybodaeth bersonol (data craidd) am yr unigolyn.
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod sgwrs "beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

**Ni** ddylid cynnwys cysylltiadau newydd os mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd.

Mae rhoi cyngor a chynhorthwy yn **gofyn am gwblhau asesiad,** (Rhan 3 o'r Cod Ymarfer, para. 20). Mae angen i'r broses asesu **ddod i ben** cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Gweler **metrig AD/002 y** Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

### 2. Faint o adroddiadau diogelu a gawsoch mewn gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?

Cyfrifwch gyfanswm nifer yr **atgyfeiriadau** neu'r **adroddiadau** ar gyfer **oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso** i'r awdurdodau lleol yn ystod y mis.

Gall yr awdurdod lleol hefyd gael adroddiadau gan unigolion gan gynnwys pobl sy'n cael gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr, a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector

Gweler **metrig AD/020** y Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

### 3. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael cymorth gan eich awdurdod lleol gyda llety cartref gofal hirdymor?

Cyfrifwch bob oedolyn a oedd yn cael llety cartref gofal hirdymor, gan wasanaeth cartref gofal i oedolion, heddiw, **waeth beth fo'r dyddiad dechrau a drefnwyd.**

Gall hwn fod yn lleoliad cartref gofal parhaol. Mae “cartref gofal” yn cynnwys cartrefi gofal preswyl a chartrefi gyda gofal nyrsio. Mae gwasanaeth cartref gofal i oedolion heb ofal nyrsio yn cynnwys:

- Cartrefi gofal preswyl awdurdodau lleol – sefydliadau a redir gan awdurdodau lleol sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol fel y'i diffinnir yn Neddf Gofal 2000. Ni ddylech gynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant fel cyfres o seibiannau byrdymor wedi'u cynllunio.
- Cartrefi gofal y sector annibynnol dan gontract – sefydliadau preifat sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol.

Cartrefi gofal i oedolion gyda nyrsio – cartrefi gofal y sector annibynnol dan gontract, sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol a gofal nyrsio.

Ni ddylech gynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant fel cyfres o seibiannau byrdymor wedi'u cynllunio.

Gweler **metrig AD/030** y Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

### 4. O heddiw ymlaen, faint o bobl sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor ar hyn o bryd?

Dylech gynnwys pob oedolyn sy'n aros i gael ei leoli mewn lleoliad cartref gofal hirdymor, y rhai nad ydynt mewn lleoliad ar hyn o bryd a'r rhai mewn lleoliad byrdymor neu dros dro. Mae hyn yn cynnwys unrhyw oedolyn sy'n aros, **waeth ble mae'n aros.**

**Peidiwch** â chynnwys y rhai sydd eisoes mewn lleoliad hirdymor ac sy'n aros i **symud** lleoliad.

### O blith yr uchod (4), faint o oedolion sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor ers:

**4.1. 0-14 diwrnod**

**4.2. 15-30 diwrnod**

**4.3. 31-90 diwrnod**

**4.4. 91 diwrnod neu fwy?**

Cyfrifwch amseroedd aros drwy gymharu **dyddiad y penderfyniad** bod angen llety cartref gofal hirdymor ar yr oedolyn a'r dyddiad heddiw.

### 5. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sydd mewn llety cartref gofal dros dro neu heb ei gynllunio? (h.y. heb unrhyw ddyddiad gorffen penodedig ac yn aros i symud i gam nesaf gofal).

Mewn rhai achosion prin, gall oedolyn gael ei leoli mewn llety cartref gofal tra bydd yn **aros am gam nesaf eu gofal.** Gall hyn gynnwys oedolion sy'n aros am leoliad cartref gofal hirdymor neu becyn gofal gyda gwasanaeth gofal cartref.

Dylech gynnwys oedolion mewn lleoliadau dros dro a phob oedolyn sy'n aros mewn cartref gofal heb unrhyw ddyddiad gorffen, **waeth beth fo'r rheswm pam mae'n aros.**

### O blith yr uchod (5), faint o oedolion sydd mewn llety dros dro neu heb ei gynllunio ers:

### 5.1. 0-3 mis

### 5.2. 3-6 mis

### 5.3. 6 mis neu fwy?

Cyfrifwch amseroedd aros drwy gymharu **dyddiad dechrau**'r llety a'r dyddiad heddiw.

## 6. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i leoli oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae angen gofal preswyl arnynt yn y lleoliad preswyl priodol?

**Gwyrdd** – Da. Ar hyn o bryd, mae gennym ddigon o gapasiti yn fewnol neu gallwn gael gafael ar gapasiti o'r sector annibynnol er mwyn diwallu ein hanghenion.

**Oren** – Rydym yn wynebu diffyg capasiti yn fewnol ac yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddigon o gapasiti yn allanol er mwyn i ni allu diwallu anghenion yr holl oedolion y mae angen gofal preswyl arnynt.

**Coch** – Ni allwn ddod o hyd i leoliadau priodol i oedolion y mae angen gofal preswyl arnynt, sy'n arwain at gryn oedi cyn lleoli oedolion.

## 7. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael gofal cartref ar hyn o bryd?

Mae **gofal cartref** yn cwmpasu gwasanaethau ymarferol sy'n helpu'r person i weithredu mor annibynnol â phosibl a/neu barhau i fyw yn ei gartref. **Peidiwch** â chynnwys gwasanaethau ailalluogi a ddarperir yng nghartref person ei hun; dylech gofnodi'r rhain fel ailalluogi.

Cyfrifwch **bob oedolyn a oedd yn cael cartref gofal** heddiw, **waeth beth fo'r dyddiad dechrau a drefnwyd.** Dylech gynnwys y rhai y darperir eu lleoedd gofal cartref drwy **wasanaethau sy'n eiddo i ALlau** ac **sy'n cael eu comisiynu'n uniongyrchol.**

**Peidiwch** â chynnwys y rhai sy'n comisiynu lleoedd gofal cartref drwy **Daliadau Uniongyrchol.**

**Peidiwch** â chynnwys yr unigolion hynny sydd mewn **llety â chymorth** neu **lety gwarchod** lle mae'r gofal roeddent yn ei gael **wedi'i gynnwys fel rhan o'u pecyn** yn eu cytundeb tenantiaeth.

Dylech **gynnwys** y bobl hynny sy'n cael **'gofal ychwanegol'** (ac a all fod mewn llety gwarchod neu lety â chymorth) a oedd yn cael **gofal cartref ychwanegol**, nad yw wedi'i gynnwys yn eu cytundeb llety.

Gweler **metrig AD/030** y Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

### 7.1. O heddiw ymlaen, faint o ofal cartref sy'n cael ei ddarparu neu ei gomisiynu bob wythnos ar hyn o bryd?

Ar gyfer yr oedolion hynny sy'n cael gofal cartref, rhowch **gyfanswm yr holl oriau** sy'n cael eu darparu/comisiynu ar gyfer pob un o'r oedolion hynny ar hyn o bryd, dros wythnos galendr.

Mae gennym ddiddordeb yng **nghyfanswm nifer yr oriau staff** sy'n cael eu darparu. Er enghraifft, os yw un person yn darparu 7 awr yr wythnos, mae'n darparu 7 awr staff, a byddech chi'n cofnodi "7". Ond, os yw tîm o ddau berson yn darparu 7 awr yr wythnos, maent yn darparu 2 * 7 awr staff, felly byddech chi'n cofnodi “14”.

Dylech gynnwys y rhai y darperir eu horiau drwy **wasanaethau sy'n eiddo i ALlau** ac **sy'n cael eu comisiynu'n uniongyrchol**.

### 7.2. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am ofal cartref ar hyn o bryd?

Mae hyn yn **cynnwys** pob oedolyn sy'n **aros** am gynllun gwasanaeth gofal cartref hirdymor ar hyn o bryd

Dylech **gynnwys** pobl **nad ydynt yn cael gwasanaeth** ar hyn o bryd a'r **rhai sy'n cael gwasanaeth byrdymor** neu **wasanaeth dros dro**, megis ailalluogi.

**Peidiwch** â chynnwys y rhai sydd eisoes yn cael gwasanaeth hirdymor ac sy'n aros i **symud** neu **newid** eu cynllun.

**O blith yr uchod, faint o oedolion sy'n aros am gymorth gofal cartref ers:**

**7.2.1. 0-14 diwrnod,**

**7.2.2. 15-30 diwrnod,**

**7.2.3. 31-90 diwrnod,**

**7.2.4. 91 diwrnod neu fwy?**

Nodwch pa mor hir y mae pob oedolyn wedi bod yn aros mewn **diwrnodau calendr**, yn ôl categori: 0-14 diwrnod, 15-30 diwrnod, 31-90 diwrnod neu 91 diwrnod neu fwy.

Cyfrifwch amseroedd aros drwy gymharu **dyddiad y penderfyniad** bod angen cymorth gofal cartref ar yr oedolyn a'r dyddiad heddiw.

### 7.3. O heddiw ymlaen, sawl awr o gymorth gofal cartref sy'n aros i gael eu llenwi ar hyn o bryd?

Rhowch **gyfanswm** yr oriau gofynnol ar gyfer yr oedolion hynny sydd wedi'u cynnwys yn 7.2.

## 8. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu a chomisiynu gofal cartref?

**Gwyrdd** – Da. Gallwn ddarparu gwasanaethau gofal cartref i unigolion yn y lleoliadau priodol heb fawr ddim oedi.

**Oren** – Gallwn ddarparu gofal cartref i'r rhan fwyaf o bobl ar hyn o bryd, ond ceir oedi ac nid oes gennym fawr ddim capasiti ychwanegol.

**Coch**– Rydym yn gweithredu hyd eithaf ein gallu ac ni allwn ddarparu gwasanaethau gofal cartref i'r holl unigolion y mae eu hangen arnynt.

## 9. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael gwasanaethau ailalluogi ar hyn o bryd?

Cyfrifwch bob oedolyn a oedd **yn cael gwasanaethau ailalluogi** heddiw, **waeth beth fo'r dyddiad dechrau** a drefnwyd.

Dylech gynnwys oedolion sy'n cael gwasanaethau ailalluogi **canolraddol** (6 wythnos), oedolion sy'n cael cymorth gan wasanaethau **Gofal Ailalluogi Brys**, ac unrhyw ofal gan **Dimau Ailalluogi Cymunedol.** Gall hyn gynnwys gofal cartref a ddarperir gan dimau mewnol **at ddibenion ailalluogi**.

Dylech gynnwys pobl sy'n cael gwasanaethau ailalluogi gan dimau ailalluogi awdurdodau lleol, **waeth ble maent yn eu cael.** Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ailalluogi a ddarperir i gleifion yn y gwely, gwasanaethau ailalluogi preswyl, triniaeth ganolraddol a gwelyau 'gofal llai dwys', yn ogystal â'r rhai sy'n cael gwasanaethau ailalluogi yn eu cartrefi eu hunain.

**Peidiwch** â chynnwys unrhyw ofal sy'n cael ei ddarparu gan **Ffisiotherapyddion yn unig**

### 9.1. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am wasanaethau ailalluogi ar hyn o bryd?

Mae hyn yn cynnwys pob oedolyn sy'n **aros i ddechrau** gwasanaethau ailalluogi ar hyn o bryd.

Dylech gynnwys pob oedolyn, **waeth ble mae'n aros.** Mae hyn yn golygu cynnwys pobl yn yr ysbyty, y rhai mewn gwely gofal dros dro, yn ogystal â'r rhai sy'n aros gartref.

### 9.2. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros i gael gwasanaethau ailalluogi ers:

- **9.2.1. 0-14 diwrnod**
- **9.2.2. 15-30 diwrnod**
- **9.2.3. 31-90 diwrnod**
- **9.2.4. 91 diwrnod neu fwy**

Cyfrifwch amseroedd aros drwy gymharu **dyddiad y penderfyniad** bod angen gwasanaethau ailalluogi ar yr oedolyn a'r dyddiad heddiw.

## 10. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu gwasanaethau ailalluogi?

**Gwyrdd** – Da. Gallwn ddarparu gwasanaethau ailalluogi i unigolion yn y lleoliadau priodol heb fawr ddim oedi.

**Oren** - Gallwn ddarparu gwasanaethau ailalluogi i'r rhan fwyaf o bobl ar hyn o bryd, ond ceir oedi ac nid oes gennym fawr ddim capasiti ychwanegol.

**Coch**- Rydym yn gweithredu hyd eithaf ein gallu ac ni allwn ddarparu gwasanaethau ailalluogi i'r holl unigolion y mae eu hangen arnynt.

## 11. Beth yw cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofal cymdeithasol a gwblhawyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?

Dylai hyn gynnwys **unrhyw asesiadau, gan gynnwys asesiadau a ailgynhaliwyd** ac **ailasesiadau,** lle yr ystyriwyd y **pum elfen asesu** ac y cynhaliwyd "**sgwrs beth sy'n bwysig**". Gall hyn gynnwys asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan weithwyr proffesiynol heblaw'r ymarferydd arweiniol.

Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio un neu fwy o ffurflenni i gofnodi'r broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrifwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.

Os oes sawl **asesiad arbenigol** wedi'u cynnwys fel rhan o'r asesiad cynhwysfawr cychwynnol, dim ond unwaith y dylid cyfrif hyn. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd **wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw**. Dylech gynnwys pob asesiad waeth beth fo canlyniad yr asesiad.

Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

**Ni** ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd, gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu; fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Rhan 2 Cod Ymarfer paragraff 300.

Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i ymholiadau diogelu oedolion.**

**Peidiwch** â chynnwys asesiadau ar gyfer **gofalwyr sy'n oedolion.**

**Peidiwch** â chynnwys cysylltiadau os **nad ystyriwyd y pum elfen asesu,** neu os na chynhaliwyd **sgwrs "beth sy'n bwysig"**

**Noder:** Dim ond asesiadau **newydd** y mae metrig AD/004 y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn eu cyfrif, tra bod yr eitem hon yn casglu **asesiadau newydd, asesiadau a ailgynhelir** ac **ailasesiadau.**

### 11.1. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am asesiad o anghenion gofal cymdeithasol ar hyn o bryd?

Dylech gynnwys **unrhyw oedolyn sy'n aros** am **asesiad gofal cymdeithasol**. Gall hyn gynnwys naill ai'r rhai sy'n aros am **asesiad newydd** neu'r rhai sy'n aros am **ailasesiad** a dylai **gynnwys** y rhai a all fod yn agored i weithiwr cymdeithasol, ond nad yw asesiad wedi dechrau eto, a'r rhai sy'n rhan o lwyth achosion heb ei neilltuo ar hyn o bryd yn aros i weithiwr gael ei neilltuo iddynt. Ystyrir bod gweithredu **wedi dechrau** cyn gynted ag y bydd y gweithiwr a neilltuwyd wedi dechrau casglu unrhyw wybodaeth neu gysylltu â'r oedolyn.

**Peidiwch** â gwahaniaethu rhwng yr oedolion hynny sy'n aros am asesiad newydd a'r rhai sy'n aros am ailasesiad. Dylech gynnwys y naill gategori a'r llall yn yr eitem data hon.

**Peidiwch â chynnwys** yr unigolion hynny sydd **wedi dechrau asesiad ac sy'n aros hyd nes y cwblheir y canlyniad neu y penderfynir arno.** Gall hyn gynnwys y rhai sy'n aros i weithiwr gael ei neilltuo iddynt, y rhai y mae gweithiwr wedi'i neilltuo iddynt ond nad yw gweithredu gan y gweithiwr a neilltuwyd wedi dechrau eto neu'r rhai y mae eu hasesiad wedi dechrau ond na phenderfynwyd ar y canlyniad eto.

**Peidiwch â chynnwys asesiadau arbenigol**, megis y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Therapi Galwedigaethol ac Adsefydlu Pobl ag Amhariad ar y Golwg ac Ailalluogi.

**O blith y rhai sydd wedi'u cynnwys yn 11.1, faint o oedolion sy'n aros am asesiad ers:**

#### 11.1.1. 0-14 diwrnod

#### 11.1.2. 15-30 diwrnod

#### 11.1.3. 31-90 diwrnod

#### 11.1.4. 91 diwrnod neu fwy?

Nodwch pa mor hir y mae pob oedolyn wedi bod yn aros mewn diwrnodau calendr, yn ôl categori: 0-14 diwrnod, 15-30 diwrnod, 31-90 diwrnod neu 91 diwrnod neu fwy.

Cyfrifwch amseroedd aros drwy gymharu'r **dyddiad y gofynnwyd** am asesiad **–** os nodwyd bod angen i'r oedolyn gael asesiad – a'r dyddiad heddiw.

### 12. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i gynnal asesiadau neu ailasesiadau o oedolion y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt ar hyn o bryd?

**Gwyrdd**– Oes, mae gennym drefniadau i gynnal asesiadau o oedolion y gallai fod angen cymorth, neu ofal a chymorth, arnynt.

**Oren** – Gallwn gynnal asesiadau, ond maent yn cymryd mwy o amser nag arfer.

**Coch**– Mae ein gallu i gynnal asesiadau ar gyfer oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt yn gyfyngedig. Dim ond y rhai yr ystyrir bod angen gofal a chymorth arnynt fwyaf y gallwn eu hasesu.

## Gwasanaethau Plant

### 1. Beth yw cyfanswm nifer y cysylltiadau a gawsoch mewn gwasanaethau plant yn ystod y mis?

Cyfrifwch **gyfanswm nifer y cysylltiadau** a gafwyd ar gyfer plant gan y **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy** yn eich awdurdod lleol yn ystod y mis.

Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrifiad gynnwys pob cyswllt sy'n bodloni'r meini prawf uchod, waeth beth fo'r llwybr i'r system.

Gall plentyn gael mwy nag un cyswllt yn ystod y mis casglu. **Cyfrifwch bob un o'r rhain.**

Dylid cyfrif materion diogelu fel cyswllt.

#### 1.1. O blith yr uchod, (1), faint o gyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud â chyswllt newydd?

Cyfrifwch bob cyswllt â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn ystod y mis diwethaf ar gyfer unrhyw blentyn **nad oedd yn cael gofal na chymorth** ar adeg y cyswllt. **Dim ond** cysylltiadau **newydd** â'r gwasanaeth y dylech eu cynnwys, nid y rhai sydd eisoes yn cael gofal a chymorth.

Gweler **metrig CH/001** y Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

#### 1.2. O blith yr uchod, (1), faint o'r cyfanswm a arweiniodd at ymholiadau amddiffyn plant.

Os mai canlyniad y cyswllt yw **Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol**, dylid cofnodi hynny yma.

#### 1.3. O blith yr uchod (1.1), faint o'r cysylltiadau newydd a gafodd gyngor neu gynhorthwy?

Cyfrifwch bob **cyswllt newydd** sy'n ateb y diffiniad ar gyfer rhoi cyngor a/neu gynhorthwy. Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi gwybodaeth bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle y bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

**Ni** ddylid cynnwys os mai **dim ond gwybodaeth** a ddarparwyd.

Mae rhoi cyngor a chynhorthwy yn gofyn am gwblhau asesiad, (Rhan 3 o'r Cod Ymarfer, para. 20). **Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysby**s. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Gweler **metrig CH/002** y Fframwaith Perfformiad a Gwella am ragor o fanylion.

### 2. Faint o asesiadau anghenion cymorth (asesiadau newydd, asesiadau a ailgynhaliwyd ac ailasesiadau) a gwblhawyd yn ystod y mis diwethaf?

Dylai hyn gynnwys **unrhyw asesiadau** lle yr **ystyriwyd y pum elfen asesu,** neu lle y cynhaliwyd **"sgwrs beth sy'n bwysig"**. Gall hyn gynnwys asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan weithwyr proffesiynol heblaw'r ymarferydd arweiniol gan ystyried deddfwriaeth ategol hefyd (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen i gofnodi'r broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrifwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.

Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd **wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw**.

Os caiff asesiad ei gynnal a'i gofnodi ar sail deuluol, **rhaid cyfrif pob plentyn a ystyrir yn yr asesiad hwnnw fel pe bai wedi cael asesiad.**

Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y **broses** asesu fydd yn pennu'r canlyniad, waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Dylech gynnwys pob asesiad **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.

Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu** (yn amodol ar fodloni meini prawf pwynt 7.4 isod)**.**

**Peidiwch** â chynnwys **asesiadau gofalwyr** na phlant a gysylltodd fel **gofalwyr ifanc**.

Peidiwch â chynnwys cysylltiadau os **nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd "**sgwrs beth sy'n bwysig**".

**Noder:** Dim ond asesiadau **newydd** y mae metrig **CH/006** y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn eu cyfrif, tra bod yr eitem hon yn casglu **asesiadau newydd, asesiadau a ailgynhelir** ac **ailasesiadau.**

### 3. O heddiw ymlaen, faint o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn eich awdurdod lleol?

Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw'n **cael llety**, am **gyfnod parhaus o fwy na 24 awr**, gan yr awdurdod, o dan yr amgylchiadau a nodir yn adrannau 76 a 77 o Ddeddf 2014 neu os caiff ei roi yng ngofal awdurdod lleol yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan Ran IV o Ddeddf 1989 (mae Rhan IV yn cyfeirio yma at orchmynion gofal a gorchmynion gofal interim.

#### 3.1. O heddiw ymlaen, faint o blant neu bobl ifanc categori 1-4 (pobl sy'n gadael gofal) sydd yn eich awdurdod lleol?

Dylech gynnwys pob plentyn a pherson ifanc lle mae'r **awdurdod lleol yn gyfrifol o hyd am ddarparu cymorth.**

Mae hyn yn gymwys i blant neu bobl ifanc sy'n bobl ifanc **categori 1, 2, 3 neu 4** (pobl sy'n gadael gofal) yn unig ac nid i bobl ifanc categori 5 na 6 (pobl sy'n gadael gofal). Diffinnir categorïau o bobl ifanc yn adran 104 o Ddeddf 2014 ac fe'u disgrifir ymhellach yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o Ddeddf 2014.

### 4. O heddiw ymlaen, faint o blant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant sydd yn eich awdurdod lleol?

Cyfrifwch bob plentyn sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant **ar hyn o bryd**. **Peidiwch** â chynnwys plant heb eu geni yn y cyfrif hwn.

### 5. O heddiw ymlaen, faint o blant y mae angen lleoliad arnynt ar hyn o bryd lle nad oes lleoliad wedi'i sicrhau?

Mae hwn ar gyfer plant sydd â Chynllun Gofal a Chymorth Rhan 6, sydd â chwiliad lleoliad agored neu barhaus.

Dylech gynnwys pob plentyn sydd â chwiliad lleoliad agored neu barhaus, waeth beth fo'r rheswm dros y chwiliad lleoliad, a'r math o leoliad y chwilir amdano.

Dylech gynnwys plant sydd mewn lleoliad byrdymor ar hyn o bryd, ond y mae angen lleoliad hirdymor arnynt am fod y lleoliad byrdymor hwnnw'n amhriodol i ddiwallu anghenion y plentyn.

### 6. Faint o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal a symudodd i leoliad newydd mewn ffordd nas cynlluniwyd neu ar frys yn ystod y mis diwethaf?

Dylai plant yn yr eitem hon **hefyd gael eu cynnwys yn 3.** Mae'r eitem data hon yn casglu data ar nifer y plant sydd wedi **symud i leoliad newydd** o ganlyniad i **sefyllfa annisgwyl**.

### 7. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu gwasanaethau plant?

**Gwyrdd** – Da. Ar hyn o bryd, mae gennym ddigon o gapasiti yn fewnol neu gallwn gael gafael ar gapasiti o'r sector annibynnol er mwyn diwallu ein hanghenion.

**Oren** – Rydym yn wynebu diffyg capasiti yn fewnol ac yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddigon o gapasiti yn allanol er mwyn i ni allu diwallu anghenion yr holl blant y mae angen gofal preswyl arnynt.

**Coch** – Ni allwn ddarparu digon o gymorth i blant, sy'n arwain at gryn oedi.

## Y Gweithlu

### 1. O heddiw ymlaen, faint o staff gwasanaethau cymdeithasol a gyflogir yn uniongyrchol sydd yn eich Awdurdod Lleol?

Rhowch **gyfanswm nifer yr unigolion** sy'n gweithio yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd. Peidiwch â seilio'ch ymateb ar gyfwerth ag amser llawn (CALI), ond ar gyfanswm nifer yr unigolion.

Dylech gynnwys pob unigolyn a gyflogir o dan linell adrodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dylech gynnwys unrhyw swyddi ag **oriau a gontractiwyd rheolaidd** (h.y., nid contractau asiantaeth na chontractau achlysurol), waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu neu hyd cyflogaeth.

#### 1.1. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau plant?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 1 sy'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol plant.

#### 1.2. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau oedolion?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 1 sy'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion.

#### 1.3. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau 'eraill' ?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 1 nad yw'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant na llinell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth arall heblaw darpariaeth gofal cymdeithasol plant ac oedolion.

Dylech gynnwys staff nad ydynt yn gweithio mewn maes gwasanaeth penodol, megis Cymorth Busnes neu Atal neu Ddiogelu, **yma**.

### 2. O heddiw ymlaen, faint o'r gweithlu sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

O blith yr unigolion hynny sydd wedi'u cynnwys yn 1, rhowch y nifer sy'n absennol ar hyn o bryd am unrhyw **reswm heb ei gynllunio** (e.e., salwch, absenoldeb rhiant heb ei gynllunio).

Peidiwch â chynnwys yr unigolion hynny sy'n **absennol am resymau wedi'u cynllunio**, fel gwyliau blynyddol, absenoldeb hyblyg, absenoldeb lles, ac ati.

Dylech gynnwys **staff nad ydynt yn gweithio mewn maes gwasanaeth penodol**, megis Cymorth Busnes neu Ddiogelu, yma, ond nid yn y dadansoddiadau isod.

#### 2.1. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau plant sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 2 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol plant.

#### 2.2. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau oedolion sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 2 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion.

### 2.3. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau eraill sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 2 nad yw'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant na llinell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth arall heblaw darpariaeth gofal cymdeithasol plant ac oedolion.

Dylech gynnwys staff nad ydynt yn gweithio mewn maes gwasanaeth penodol, megis Cymorth Busnes neu Atal neu Ddiogelu, yma.

## 3. O heddiw ymlaen, faint o swyddi gwag sydd yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol?

Os caiff cyfraddau swyddi gwag eu cyfrifo yn ôl oriau, yna tybiwch fod **un swydd yn hafal i 37 awr.** Dylid ystyried bod swydd wag sydd wedi'i llenwi gan staff asiantaeth byrdymor yn wag. Waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu neu hyd cyflogaeth, dylech gynnwys unrhyw swyddi ag **oriau a gontractiwyd rheolaidd** (h.y., nid contractau asiantaeth na chontractau achlysurol). Dylai'r swydd fod yn **swydd y cytunwyd arni yn ffurfiol** o fewn strwythur yr adran gwasanaethau cymdeithasol.

### 3.1. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau plant?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 3 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol plant.

### 3.2. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau oedolion?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 3 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion.

### 3.3. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau eraill?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 3 nad yw'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant na llinell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth arall heblaw darpariaeth gofal cymdeithasol plant ac oedolion.

Dylech gynnwys staff nad ydynt yn gweithio mewn maes gwasanaeth penodol, megis Cymorth Busnes neu Atal neu Ddiogelu, yma.

## 4. O heddiw ymlaen, beth yw cyfanswm y staff gwaith cymdeithasol asiantaeth sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?

Dylech gynnwys nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi o dan **drefniant dros dro i lenwi swydd sy'n wag ar hyn o bryd** neu **i ddelio â chyfnod o alw**. Dylech gynnwys pob unigolyn, waith pa rôl sy'n cael ei llenwi.

### 4.1. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau plant?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 4 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol plant.

### 4.2. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau oedolion?

Dylech gynnwys pob swydd wag sydd wedi'i chynnwys yn 4 sydd o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion.

### 4.3. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau eraill?

Dylech gynnwys pob unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn 4 nad yw'n cael ei gyflogi o dan linell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant na llinell adrodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion neu sydd ond yn cefnogi darpariaeth arall heblaw darpariaeth gofal cymdeithasol plant ac oedolion.

Dylech gynnwys staff nad ydynt yn gweithio mewn maes gwasanaeth penodol, megis Cymorth Busnes neu Atal neu Ddiogelu, yma.

### 5. Rhowch statws eich gweithlu mewn gwasanaethau plant o heddiw ymlaen

**Gwyrdd**– Mae gennym ddigon o staff i gwmpasu pob rôl hanfodol. Gallwn drosglwyddo staff lle bo'n briodol ac nid oes gennym unrhyw broblemau mawr o ran absenoldeb na chyflogi staff ychwanegol ar hyn o bryd.

**Oren**– Gallwn ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd gwaith, ond bu'n rhaid atal rhai gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol neu eu gweithredu ar sail flaenoriaeth. Ar hyn o bryd rydym yn cael rhywfaint o anhawster i recriwtio grwpiau staff penodol i sicrhau'r ddarpariaeth gyflenwi sydd ei hangen.

**Coch** – Dim ond gwasanaethau hanfodol y gallwn ddarparu ar eu cyfer, ac mae gwaith yn cael ei flaenoriaethu i'r rhai â'r angen mwyaf. Rydym yn ei chael hi'n anodd iawn darparu staff cyflenwi ar gyfer meysydd allweddol ac nid ydym yn llwyddo i recriwtio i'r rolau hynny.

### 6. Rhowch statws eich gweithlu mewn gwasanaethau oedolion o heddiw ymlaen

**Gwyrdd**– Mae gennym ddigon o staff i gwmpasu pob rôl hanfodol. Gallwn drosglwyddo staff lle bo'n briodol ac nid oes gennym unrhyw broblemau mawr o ran absenoldeb na chyflogi staff ychwanegol ar hyn o bryd.

**Oren**– Gallwn ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd gwaith, ond bu'n rhaid atal rhai gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol neu eu gweithredu ar sail flaenoriaeth. Ar hyn o bryd rydym yn cael rhywfaint o anhawster i recriwtio grwpiau staff penodol i sicrhau'r ddarpariaeth gyflenwi sydd ei hangen.

**Coch** – Dim ond gwasanaethau hanfodol y gallwn ddarparu ar eu cyfer, ac mae gwaith yn cael ei flaenoriaethu i'r rhai â'r angen mwyaf. Rydym yn ei chael hi'n anodd iawn darparu staff cyflenwi ar gyfer meysydd allweddol ac nid ydym yn llwyddo i recriwtio i'r rolau hynny.

# Atodiad A – Rhestr o'r eitemau data

## Manylion craidd

### Gwasanaethau Oedolion

1. Beth yw cyfanswm nifer y cysylltiadau a gawsoch mewn gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?
    1.1. O blith yr uchod, (1), faint o gyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud â chyswllt newydd?
    1.2. O blith yr uchod (1.1), faint o'r cysylltiadau newydd a gafodd gyngor neu gynhorthwy?
2. Faint o adroddiadau diogelu a gawsoch mewn gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?
3. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael cymorth gan eich awdurdod lleol gyda llety cartref gofal hirdymor?
4. O heddiw ymlaen, faint o bobl sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor ar hyn o bryd?
    4.1. O blith yr uchod (4), faint o oedolion sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor ers:
        4.1.1. 0-14 diwrnod
        4.1.2. 15-30 diwrnod
        4.1.3. 31-90 diwrnod
        4.1.4. 91 diwrnod neu fwy?
5. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sydd mewn llety cartref gofal dros dro neu heb ei gynllunio? (h.y. heb unrhyw ddyddiad gorffen penodedig ac yn aros i symud i gam nesaf gofal).
    5.1. O blith yr uchod (5), faint o oedolion sydd mewn llety dros dro neu heb ei gynllunio ers:
        5.1.1. 0-3 mis
        5.1.2. 3-6 mis
        5.1.3. 6 mis neu fwy?
6. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i leoli oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae angen gofal preswyl arnynt yn y lleoliad preswyl priodol?
7. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael gofal cartref ar hyn o bryd?
    7.1. O heddiw ymlaen, faint o ofal cartref sy'n cael ei ddarparu neu ei gomisiynu bob wythnos ar hyn o bryd?
    7.2. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am ofal cartref ar hyn o bryd?
    7.3. O blith yr uchod, faint o oedolion sy'n aros am gymorth gofal cartref ers:
        7.3.1. 0-14 diwrnod
        7.3.2. 15-30 diwrnod
        7.3.3. 31-90 diwrnod
        7.3.4. 91 diwrnod neu fwy
    7.4. O heddiw ymlaen, sawl awr o gymorth gofal cartref sy'n aros i gael eu llenwi ar hyn o bryd?
8. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu a chomisiynu gofal cartref?
9. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n cael gwasanaethau ailalluogi ar hyn o bryd?

9.1. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am wasanaethau **ailalluogi** ar hyn o bryd?

9.2. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros i gael gwasanaethau **ailalluogi** ers:

9.2.1. 0-14 diwrnod

9.2.2. 15-30 diwrnod

9.2.3. 31-90 diwrnod

9.2.4. 91 diwrnod neu fwy

10. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu gwasanaethau ailalluogi?

11. Beth yw cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofal cymdeithasol a gwblhawyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau oedolion yn ystod y mis diwethaf?

11.1. O heddiw ymlaen, faint o oedolion sy'n aros am asesiad o anghenion gofal cymdeithasol ar hyn o bryd?

Faint o oedolion sy'n aros am asesiad ers:

11.1.1. 0-14 diwrnod

11.1.2. 15-30 diwrnod

11.1.3. 31-90 diwrnod

11.1.4. 91 diwrnod neu fwy

12. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i gynnal asesiadau neu ailasesiadau o oedolion y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt ar hyn o bryd?

## Gwasanaethau Plant

1. Beth yw cyfanswm nifer y cysylltiadau a gawsoch mewn gwasanaethau plant yn ystod y mis?

1.1. O blith yr uchod, (1), faint o gyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud â chyswllt newydd?

1.2. O blith yr uchod, (1), faint o'r cyfanswm a arweiniodd at ymholiadau amddiffyn plant?

1.3. O blith yr uchod (1.1), faint o'r cysylltiadau newydd a gafodd gyngor neu gynhorthwy?

2. Faint o asesiadau anghenion cymorth (asesiadau newydd, asesiadau a **ailgynhaliwyd** ac ailasesiadau) a gwblhawyd yn ystod y mis diwethaf?

3. O heddiw ymlaen, faint o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn eich awdurdod lleol?

3.1. O heddiw ymlaen, faint o blant neu bobl ifanc categori 1-4 (pobl sy'n gadael gofal) sydd yn eich awdurdod lleol?

4. O heddiw ymlaen, faint o blant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant sydd yn eich awdurdod lleol?

5. O heddiw ymlaen, faint o blant y mae angen lleoliad arnynt ar hyn o bryd lle nad oes lleoliad wedi'i sicrhau?

6. Faint o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal a symudodd i leoliad newydd mewn ffordd nas cynlluniwyd neu ar frys yn ystod y mis diwethaf?

7. O heddiw ymlaen, sut byddech chi'n asesu eich gallu i ddarparu gwasanaethau plant?

## Y Gweithlu

7. O heddiw ymlaen, faint o staff gwasanaethau cymdeithasol a gyflogir yn uniongyrchol sydd yn eich Awdurdod Lleol?

    7.1. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau plant?

    7.2. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau oedolion?

    7.3. O blith yr uchod (1), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau ‘eraill?

8. O heddiw ymlaen, faint o'r gweithlu sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

    8.1. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau plant sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

    8.2. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau oedolion sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

    8.3. O blith yr uchod (2), faint o'r gweithlu gwasanaethau eraill sy'n absennol am resymau heb eu cynllunio?

9. O heddiw ymlaen, faint o swyddi gwag sydd yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol?

    9.1. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau plant?

    9.2. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau oedolion?

    9.3. O blith yr uchod (3), faint o swyddi gwag sydd mewn gwasanaethau eraill?

10. O heddiw ymlaen, beth yw cyfanswm y staff gwaith cymdeithasol asiantaeth sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?

    10.1. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau plant?

    10.2. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau oedolion?

    10.3. O blith yr uchod (4), faint sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau eraill?

11. Rhowch statws eich gweithlu mewn gwasanaethau plant o heddiw ymlaen

12. Rhowch statws eich gweithlu mewn gwasanaethau oedolion o heddiw ymlaen

# Atodiad B – Cofnod o Newidiadau

## Cofnod o Newidiadau 2026-27 Fersiwn 0.1

- Cyhoeddwyd y canllawiau gyntaf